

## Cyngor Cymuned Betws-y-Coed

### Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar y 14eg Ragfyr 2015

Presennol - Gareth Wynne Cadeirydd, Gwawr Jones, Meirion Owen, Marion Bettaney, Gareth Parry, Terry Bullock, Karen Pugh, Jim Boughton Janet Charlton, Cyng Elisabeth Roberts Cyngor BS Conwy, Caerwyn Roberts, Clerc.

Ymddiheuriadau Siân Godbert.

Datgan diddordeb Ni chafwyd datganiad o ddiddordeb.

Cofnodion, Cadarnhawyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar y 9fed Dachwedd 2015.

#### (1)Yr Heddlu

Dywedodd y clerc nad oedd SCHG Dean Cavey yn medru bod yn bresennol

#### [1.1] Materion Ffyrdd/Ymestyn llinellau dwbl melyn ar yr A5 ym Mhentre' Du

Eglurodd y clerc bod y ddeiseb yn cefnogi llinellau melyn ychwanegol wedi ei hanfon i lolo Tegid yn yr Asiant Cefnffyrdd.

#### [1.2] Defilibrator

Dywedodd y clerc ei fod yn disgwyl gair gan y trydanwr ynglŷn â gosod y defilibrator

#### [1.3] Creu Man Chwarae yng Nghae Llan

Penderfynwyd gohirio'r mater ar hyn o bryd.

#### [1.4] Taflen Wybodaeth Rhaeadr Ewynnol

Dywedodd y Cadeirydd ei fod wedi derbyn gwybodaeth gan Mr Glyn Jones a'i fod yn paratoi crynodeb

#### [1.5]] Goleuadau Ychwanegol/ Neuadd Goffa

Nodwyd bod y mater yn parhau.

#### [1.6] Cae Chwarae Pentre' Du

Dywedodd y clerc nad oedd gair pellach wedi ei dderbyn gan Gyngor BS Conwy yn dilyn i'r byrddau gael ei symud

#### [1.7] Creu Swigod/Cae Llan

[a]Cyfeiriodd y clerc at ymddiheuriad oddiwrth y Parc Cenedlaethol nad oedd ateb cynharach wedi ei wneud i bryder y Cyngor ynglŷn ag effaith y swigod ar wyneb y llwybr sydd yn arwain i'r Ganolfan Groeso. Cafwyd cadarnhad hefyd ei bod yn dilyn ymlaen ar mater.

[b]Dywedodd y Cyng Elisabeth Roberts y byddai yn tynnu sylw Swyddog Iechyd a Diogelwch y Cyngor Sir i'r mater.

[c] Deallwyd bod y Cadeirydd a'r Clerc wedi trafod gyda Mr William Hall. a'i fod wedi cytuno i gysylltu gyda pherchennog y cwmni ynglŷn â'i defnydd o'r cae.

#### [1.8] Cytundeb Cynnal a Chadw Llwybr Aml Bwrpas

Penderfynwyd adnewyddu'r cytundeb gyda Cyfoeth Naturiol Cymru i gynnal y Llwybr Aml Bwrpas oddigerth y rhan sydd yn lwybr pren,

[1.9] Nadolig Betws-y-Coed

Penderfynwyd i gyfrannu £200.00

Y Brif Agenda

[2] Materion Cynllunio

Cais diddymu cytundeb adran 106 dyddiedig 23/11/2009 mewn perthynas â chaniatâd cynllunio NP4/11/10M. Bryn Elsi, Parc Trawsafon, Betws-y-Coed  
Penderfynwyd y dylai adran 106 barhau.

[2.1] Materion Ariannol

(a) Cymeradwywyd y taliadau ar derbyniadau (a ddsbarthwyd) a wnaed ym mis Tachwedd 2015.

(b) Y Rhaeadr Ewynnol -Nodwyd y ffigyrau [a ddsbarthwyd] ar gyfer cyfnodau cymharol i ddiwedd Tachwedd 2015.

[c] Presept -Penderfynwyd gosod presept o £6,000.00 ar gyfer y flwyddyn ariannol 2016/17

[2.2] Gwahoddiad Garddwest Palas Bucingham

Penderfynwyd i'w drafod yn y cyfarfod nesaf.

[2.3] Goleuadau Nadolig

Y clerc i wneud ymholiadau ynglŷn â costau ar gyfer goleuadau ychwanegol.

Cadeirydd \_\_\_\_\_